Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Clinig Trawsblannu Gwallt Head Quarters, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 22 Ionawr 2025
Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83715-568-2

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 9

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 9
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 15

4. Y camau nesaf .......... 17

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 18

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .......... 19

Atodiad C - Cynllun gwella .......... 20

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinic Trawsblannu Gwallt Head Quarters, Caerdydd ar 22 Ionawr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o ddau holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Clinig Trawsblannu Gwallt Head Quarters yn ymrwymedig i ddarparu triniaethau i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roedd y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion ac ar ddiogelu hawliau'r cleifion yn ystod eu hymweliad â'r clinig. Roedd yr amgylchedd hefyd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r clinigwyr yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd y staff yn ymrwymedig i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad o ansawdd ac roedd adborth y cleifion yn adlewyrchu hyn gyda phob claf yn nodi profiadau cadarnhaol yn y gwasanaeth.

Roedd prosesau da ar waith i alluogi'r cleifion i fynegi eu barn am y gofal roeddent wedi'i gael yn y clinig. Fodd bynnag, mae angen i'r clinig arddangos rhagor o wybodaeth hybu iechyd.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi mwy o wybodaeth hybu iechyd am sut y gall cleifion cynnal eu hiechyd cyffredinol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Rhoi gwybodaeth i'r cleifion am y gofal a'r driniaeth a ddarperi, gan gynnwys ôl-ofal.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda heb unrhyw beryglon amlwg, ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar. Roedd yr ystafell aros wedi'i haddurno i safon uchel ac roedd y cynllun wedi'i ystyried yn ofalus.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y clinig yn lân a bod mesurau rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel a bod system ar waith i fonitro stoc y feddyginiaeth.

Roedd gan y clinig y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw mewn modd amserol.

Roedd y cofnodion clinigol yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roeddent yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Fodd bynnag, er mwyn gwella safon y cofnodion ymhellach, byddai mewnbwn gan yr unigolyn a hebryngodd y claf yn fanteisiol yn ein barn ni. Roedd system cofnodion electronig yn cael ei defnyddio yn y clinig ac roedd y system rheoli cofnodion yn galluogi staff awdurdodedig i weld cofnodion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwelsom fod angen adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda i'r cleifion
- Roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn drylwyr ac roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n briodol
- Roedd y cofnodion meddygol yn drefnus, yn cael eu cadw'n ddiogel ac roeddent yn hawdd eu deall.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol i ddarparu triniaethau diogel i'r cleifion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom eu bod wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y clinig, ac roeddent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Nodwyd gennym fod y rhain yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, roedd angen eu diweddaru.

Roedd system drefnus ar waith gan reolwr y clinig a oedd yn galluogi'r staff i gofnodi cofnodion hyfforddiant, rheoli aelodau eraill o staff a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol yn cael eu storio.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oeddent yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer recriwtio staff
- Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**
Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Roedd yr ymatebion a'r sylwadau cyfyngedig yn awgrymu bod cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y lleoliad hwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Yn ddiweddar cefais drawsblaniad gwallt yn HQ yng Nghaerdydd, ac mae'n bleser gennyf gyfleu'r profiad cadarnhaol a gefais o ran ansawdd y gofal, y cyfleusterau trin a'r staff.*
>
> *O'r eiliad y cyrhaeddais HQ, cefais fy nghyfarch mewn ffordd gynnes a phroffesiynol. Roedd staff y dderbynfa yn gwrtais ac yn sylwgar, gan sicrhau proses gofrestru hwylus. Roedd yr ymgynghoriad yn drylwyr, a chymerodd aelodau'r tîm meddygol yr amser i ddeall fy anghenion a'm pryderon penodol. Diolch i'w harbenigedd, roedd gen i hyder yn y driniaeth roeddwn i'n ei chael.*
>
> *Roedd y cyfleusterau trin o'r safon uchaf, mewn cyflwr arbennig ac yn cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf. Roedd yr amgylchedd hwn yn bwysig wrth wneud i mi deimlo'n gysurus a rhoi tawelwch meddwl i mi yn ystod y broses. Gwnaeth y sylw at fanylder yn y lleoliad di-haint a diogel argraff dda iawn arnaf, gan bwysleisio ymrwymiad y clinig i ofal cleifion.*
>
> *Drwy gydol y driniaeth, dangosodd y staff meddygol sgil a thosturi eithriadol. Gwnaethant ymdrech barhaus i sicrhau fy mod yn gyfforddus ac i gadarnhau fy mod yn iawn, gan esbonio pob cam yn glir. Ar ôl y driniaeth, pwysleisiodd y gofal dilynol eu hymrwymiad i sicrhau fy mod yn gwella'n hwylus ac yn llwyddiannus.*
> *Ar y cyfan, roedd fy mhrofiad yn HQ yng Nghaerdydd yn eithriadol o dda, diolch i lefelau gofal a phroffesiynoldeb neilltuol. Rwy'n argymell eu gwasanaethau yn fawr i unrhyw un sy'n ystyried cael trawsblaniad gwallt."*
>
> *"Glân iawn! Mae pob aelod o'r staff yn gwneud ymdrech fawr i sicrhau eich bod yn cael croeso cynnes ac maent yn esbonio popeth sy'n digwydd. Roedd yn ddiwrnod gwych."*

**Diogelu a gwella iechyd**

Roedd rhywfaint o ddeunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn y clinig. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd perthnasol yn ystod eu hymgyngoriadau cyn dyddiad y driniaeth. Byddai'r cleifion yn argraffu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer y cleifion na allant ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae hefyd angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael yn y clinig am y ffordd y gall y cleifion ofalu am eu hiechyd cyffredinol eu hunain.

**Urddas a pharch**

Gwelsom fod y clinig yn olau, yn agored ac yn lân. Roedd y clinig wedi'i leoli ar y llawr cyntaf ac nid oedd lifft, felly nid oedd yn addas i gleifion â phroblemau symudedd. Roedd hyn wedi'i nodi yn y canllaw i gleifion.

Gwelsom fod drysau y gellir eu cloi ar yr ystafelloedd asesu ac roedd gan yr ystafelloedd cyn triniaeth ystafelloedd ymolchi preifat er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion dynnu eu dillad.

Roedd amgylchedd y clinig yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Nodwyd bod drysau'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau pan fyddai'r ystafelloedd yn cael eu defnyddio a bod y bleinds ar y ffenestri yn cael eu cau. Roedd ardal y dderbynfa a'r ystafell aros yn y clinig o faint priodol. Nodwyd fod y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion sy'n mynychu'r clinig.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod eu hapwyntiad yn y clinig.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Roedd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd. Roeddent hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom fod yr arwyddion yn y clinig yn rhai uniaith Saesneg. Roedd y rhan fwyaf o ohebiaeth yn cael ei hanfon at gleifion drwy e-bost.

Dim ond yn Saesneg roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion ar y cyfan ac nid yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni ddywedodd unrhyw un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag,

gan fod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried darparu rhagor o wybodaeth yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

Gwelsom fod gwybodaeth ar wefan y clinig a oedd yn cynnwys ffotograffau a manylion am bob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y clinig.

**Cynllunio a darparu gofal**

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cleifion yn cael gwybodaeth am eu gofal a'u triniaeth ar bob cam o'r driniaeth ac ar ôl y driniaeth. Roedd gwefan y clinig yn cynnwys gwybodaeth am y materion cyffredinol y gallai'r cleifion eu hwynebu a'r ffordd i reoli'r materion hyn. At hynny, roedd y cleifion yn cael bag ôl-ofal a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y gofal a'r driniaeth a roddwyd, gan gynnwys ôl-ofal.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd y clinig ar y llawr cyntaf ac felly nid oedd yn hygyrch iawn i gleifion ag anawsterau symudedd neu'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd hyn wedi'i nodi yn y canllaw i gleifion. Nododd y staff y byddent yn helpu'r cleifion lle bo angen er mwyn sicrhau y gallent fynd i mewn i'r practis. Roedd hyn yn dangos bod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl.

Roedd gan y clinig hefyd bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Fodd bynnag, roedd angen ei adolygu.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau neu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r clinig a'u bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallai'r cleifion gwblhau arolwg a oedd yn rhoi adborth wedi'i gadarnhau. Roedd hyn yn cynnwys adborth ar y profiad cyffredinol, yr amseroedd aros a'r glendid. Roedd y clinig yn cofnodi'r holl sylwadau a roddir yn y blwch ac yn gwneud newidiadau lle y bo'n bosibl. Dywedwyd wrthym fod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan.

Roedd adolygiadau Google a Trustpilot hefyd yn cael eu defnyddio i gasglu adborth ac roedd dolenni iddynt ar gael ar wefan y gwasanaeth.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**

Roedd Clinig Trawsblannu Gwallt Head Quarters wedi'i leoli ar lawr cyntaf adeilad diogel. Roedd y fynedfa yn cael ei rheoli gan system intercom a dim ond pobl oedd wedi trefnu apwyntiad oedd yn cael mynd i mewn i'r clinig.

Roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda heb unrhyw beryglon amlwg, ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar. Roedd yr ystafell aros wedi'i haddurno i safon uchel ac roedd y cynllun wedi'i ystyried yn ofalus.

Gwelsom fod digon o seddi yn yr ardal aros ac roedd diodydd poeth ac oer ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer delio ag argyfyngau meddygol. Gwelsom fod y gweithdrefnau'n unol â chanllawiau'r Cyngor Adfywio a bod y cyfarpar yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau ar waith ac roeddent ar gael i'r staff yn y ffolder Adnoddau Dynol. Fodd bynnag, roedd angen eu hadolygu ac roedd rheolwr y clinig yn ymdrin â hynny. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn disgwyl i bolisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru gyrraedd yn fuan.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi tystiolaeth i AGIC i ddangos bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu.**

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Gwelsom fod gan y clinig brosesau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael, bod y staff yn ei ddefnyddio a'u bod yn newid y cyfarpar yn briodol rhwng cleifion. Roedd gorsafoedd golchi dwylo ar gael ym mhob ystafell ymgynghori. Nodwyd gennym fod y rhan fwyaf o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn gyfarpar untro a bod prosesau dihalogi priodol ar waith ar gyfer eitemau amldro. Gwelsom fod biniau offer miniog ar gael ac yn cael eu storio'n briodol. Roedd polisi atal a rheoli heintiau addas ar waith, ond roedd angen adolygu pob polisi.

Roedd y clinig yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth o'r amserlenni glanhau a'r archwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn bresennol.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau ar waith a oedd ar gael i'r staff yn y ffeil Adnoddau Dynol. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, roedd angen eu hadolygu.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y lleoliad yn 'lân iawn'. Dywedodd pob un o'r cleifion a fynegodd eu barn fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

**Maeth**

Disgwylir i'r cleifion sy'n cael triniaeth fod yn y clinig am ddiwrnod llawn ac felly roedd cinio yn cael ei ddarparu. Roedd hyn yn cael ei drefnu drwy ddarparwr allanol ac nid oedd unrhyw fwyd yn cael ei baratoi yn y clinig.

**Rheoli meddyginiaethau**

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith yn y clinig. Fodd bynnag, nid oedd wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar. Gwelsom mai dim ond meddyginiaethau roedd eu hangen ar gyfer triniaethau oedd yn cael eu storio ar y safle. Gwnaethom nodi bod y systemau ar gyfer monitro ac archebu stociau meddyginiaeth yn gadarn. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ac mai rheolwr y clinig oedd yn cadw'r allweddi.

Roedd y clinig yn defnyddio system ar-lein i storio cofnodion o'r holl nodiadau a oedd yn ymwneud â chleifion.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd polisi diogelu ar waith, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a'u manylion cyswllt perthnasol. Fel y crybwyllwyd yn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, roedd angen ei adolygu. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gweithredu fel yr arweinydd diogelu dynodedig a dywedodd y staff y byddent yn cael gwybod am unrhyw bryderon diogelu er mwyn cydlynu unrhyw gamau gweithredu gofynnol.

Gwelsom y cofnodion hyfforddiant a ddangosodd gydymffurfiaeth o 100%.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd gan y clinig y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion ac roedd y rhain wedi'u lleoli yn yr amgylchedd cywir i'w defnyddio. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw mewn modd amserol, a oedd yn cynnwys proses ar gyfer rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Gwelsom dystiolaeth o'r gwaith cynnal a chadw hwn ac roedd yn dangos ei fod wedi'i gyflawni mewn modd amserol.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

O siarad â'r staff yn y lleoliad, gan gynnwys uwch aelodau o'r staff, cawsom wybod mai ychydig o gleifion sydd ag anghenion ychwanegol oedd yn mynychu eu clinig. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y clinig ac roeddent o'r farn bod y gofal a ddarperir yn amserol a bod y cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a bod polisïau a gweithdrefnau clinigol ar gael.

### Rheoli cofnodion

Edrychwyd ar hapsampl o gofnodion ar gyfer tri chlaf. Gwelsom fod y cofnodion yn drefnus, yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn hawdd eu deall. Roedd system cofnodion electronig yn cael ei defnyddio yn y clinig ac roedd y system rheoli cofnodion yn galluogi staff awdurdodedig i weld cofnodion.

Roedd y cofnodion yn dangos bod taflenni gwybodaeth am eu triniaeth yn cael eu hanfon at gleifion drwy e-bost.

Gwnaethom nodi bod y clinig yn cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb ac y gall olrhain cleifion o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at ddiwedd eu triniaeth. Nodwyd bod y system cadw cofnodion clinigol a ddefnyddir yn dda iawn.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Rheolwr practis y clinig oedd y rheolwr cofrestredig hefyd ac roedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd. Roedd strwythur rheoli clir ar waith a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Cawsom ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol mewn perthynas â'r clinig. Roedd y ddau yn cynnwys y wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roedd y rhain ar gael i'r staff gael gafael arnynt mewn ffeil Adnoddau Dynol. Fodd bynnag, roedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio ers ychydig ddiwrnodau. Roedd rheolwr y practis yn ymwybodol o hyn ac yn aros i bolisïau newydd gael eu hanfon gan y cwmni a gontractiwyd.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar gael yn y clinig, a oedd i'w gweld yn y clinig. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys gwybodaeth am bwy y gallai'r cleifion gysylltu â nhw am gyngor, gan gynnwys manylion AGIC, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer ymateb i gwynion.

Roedd trefniadau ar waith i gofnodi digwyddiadau a'u monitro. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd am y broses ar gyfer derbyn, monitro ac ymchwilio i unrhyw gwynion. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi cymryd lle hyd yma. Fodd bynnag, disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhannu'r gwersi a ddysgwyd â phob aelod o'r staff.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod nifer y staff a oedd yn gweithio yn y clinig a'r cymysgedd sgiliau yn ddigonol o ran gallu cyflwyno'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Dywedwyd wrthym mai dim ond pan fydd digon o staff cymwysedig yn gweithio yn y clinig y byddai'r cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau.

Gwelsom fod system fonitro ar waith gan yr adran Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal ac er mwyn olrhain hyfforddiant.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ond nid oedd y cofnodion bob amser yn cael eu llunio. Gwnaethom argymell y dylid llunio cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd staff fel mater o drefn a fyddai o fudd wrth i'r tîm

ehangu.  Dywedodd y staff wrthym eu bod yn trafod arferion da ac adborth yn ystod y cyfarfodydd wythnosol.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau pedwar o'r staff a gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal, a bod gan y staff gontract a disgrifiad swydd. Gwelsom fod arfarniadau yn cael eu cynnal yn flynyddol a bod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd sgyrsiau goruchwylio hefyd yn cael eu cynnal yn fwy aml a oedd yn cael eu cofnodi ar system yr adran Adnoddau Dynol.

Gwnaethom archwilio ffeiliau'r staff newydd ar gyfer y ddau aelod anghlinigol o staff, a oedd yn cynnwys geirdaon, disgrifiadau swydd a chontractau. Roedd gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei gwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff.

Roedd hyfforddiant y staff yn cael ei reoli ar y system Adnoddau Dynol hefyd. Roedd hyn yn dangos lefelau cydymffurfiaeth o 100% â hyfforddiant gorfodol. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys hyfforddiant cymorth bywyd sylfaenol, diogelu a chodi a chario.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyfiawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| **Pryderon uniongyrchol a nodwyd** | **Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion** | **Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder** | **Sut cafodd y pryder ei ddatrys** |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol. | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Clinig Trawsblannu Gwallt Head Quarters

**Dyddiad yr arolygiad:** 22 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch. | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Clinig Trawsblannu Gwallt Head Quarters

## Dyddiad yr arolygiad: 22 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Gwelsom fod angen adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer y clinig. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi tystiolaeth i AGIC i ddangos bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru). Rheoliad (9) (5) (c) | Wedi derbyn Llawlyfr Polisi 2025/2026 a Chofrestrfa'r Clinig erbyn hyn. Wedi cael canllaw polisi diwygiedig, bellach wedi'i gwblhau. | L. Andrews | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Lindsey Andrews

**Teitl swydd:** Rheolwr Cofrestredig

**Dyddiad: 5/3/2025**